*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Panel Gweithredol** |
| Rhif adroddiad | **EP/2017/07/06** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac i fonitro perfformiad yn erbyn yr amcanion gwella.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac i fonitro perfformiad yn erbyn yr amcanion gwella.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

4 Er gwybodaeth i'r Aelodau, ynghlwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Bydd yn cyfrannu at yr adolygiad blynyddol o berfformiad. |
| Cyllideb | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cyfreithiol | Yn bodloni Mesur Llywodraeth Leol 2009 i adrodd ynghylch perfformiad. |
| Staffio | Mae newid y system gorchymyn a rheoli yn gofyn am adfer data â llaw ar gyfer 21-31 Mawrth 2017. |
| Cydraddoldeb/Haw Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai methu â darparu gwybodaeth am berfformiad yn gallu effeithio ar y gallu i wneud penderfyniadau a/neu'r trefniadau monitro yn yr ATA. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**DIWEDD BLWYDDYN**
**Ebrill 2016 – Mawrth 2017**

**Ffigyrau dros dro a ddarperir, ac efallai y bydd mân newidiadau iddynt.**

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| | **MONITRO GAN GYMHARU AG AMCAN GWELLA 1** | **3-7** |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Pobl yn dianc yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn tanau mewn cartrefi | |
| | Archwiliadau diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner | |
| | | |
| | **ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU** | **8-15** |
| | **CRYNODEB** | **8-9** |
| | Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | |
| | | |
| FRS/RRC/S/001i | **TANAU YR AETHPWYD ATYNT** | **10-13** |
| | Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai | |
| | Yr holl danau – bwriadol a damweiniol | |
| | Tanau mewn eiddo annomestig | |
| | | |
| FRS/RRC/S/001vi<br>FRS/RRC/S/001vii | **GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG** | **14-15** |
| | Galwadau brys am wasanaethau arbennig | |
| | | |
| FRS/RRC/S/001v | **GALWADAU DIANGEN** | **16-17** |
| | Galwadau diangen maleisus | |
| | Galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig | |
| | Galwadau diangen didwyll | |
| | | |
| | **GEIRFA** | **18** |

## AMCAN GWELLA 1:

## Atal Marwolaethau ac Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

**BLWYDDYN ADRODD 2016-17**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Y flwyddyn gyfan | | Cyfartaledd o'r 3 blynedd diwethaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2016-17 | 103 | 112 | 117 | 101 | 433 | ↑ 12.5% | 421.7 | ↑ 2.7% |
| | 2015-16 | 106 | 89 | 99 | 91 | 385 | | | |
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2016-17 | 4 | 12 | 8 | 9 | 33 | ↓ 14 | 46.7 | ↓ 13.7 |
| | 2015-16 | 17 | 13 | 12 | 5 | 47 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2016-17 | 1 | 2 | 0 | 1 | 4 | ↑ 1 | | |
| | 2015-16 | 0 | 0 | 2 | 1 | 3 | | | |
| % y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | 2016-17 | 92.1% | 86.2% | 86.2% | 76.1% | 85.7% | ↑ 11.4pp | 80.2% | ↑ 5.5PP |
| | 2015-16 | 68.1% | 83.6% | 66.1% | 81.1% | 74.3% | | | |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi gweithredu | 2016-17 | 53.7% | 66.1% | 64.0% | 53.6% | 59.7% | → 0.6pp | 61.3% | → 1.6pp |
| | 2015-16 | 62.4% | 56.6% | 66.7% | 54.8% | 60.3% | | | |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb weithredu | 2016-17 | 25.9% | 24.2% | 22.4% | 28.2% | 25.1% | → 0.1pp | 24.4% | → 0.7pp |
| | 2015-16 | 24.8% | 24.2% | 20.3% | 31.7% | 25.2% | | | |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yn bresennol | 2016-17 | 20.4% | 9.7% | 13.6% | 18.2% | 15.2% | → 0.7pp | 14.3% | → 0.9pp |
| | 2015-16 | 12.8% | 19.2% | 13.0% | 13.5% | 14.5% | | | |
| % yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y cartref a gynhaliwyd ar ôl atgyfeiriad gan sefydliad partner | 2016-17 | 30.0% | 27.3% | 25.1% | 25.7% | 27.0% | ↓ 3.5pp | 33.3% | ↓ 6.3pp |
| | 2015-16 | 35.5% | 30.7% | 27.4% | 27.5% | 30.5% | | | |

* Sylwch fod y canrannau uchod wedi cael eu talgrynnu I'r lle degol agosaf.

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf


***Bu cynnydd o 12.5% neu 48 yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â 2015/16***

Yn ystod y flwyddyn aeth y Gwasanaeth at 433 o danau damweiniol mewn cartrefi; mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (48 yn fwy o danau), ac hefyd yn uwch na'r cyfartaledd dros y dair blynedd o 421.7 o danau.

**Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:** Cafodd 33 o bobl anafiadau yn y tanau hyn – roedd 25 wedi'u categoreiddio'n fân anafiadau a'r wyth arall wedi'u categoreiddio'n anafiadau difrifol. Mae'r rhain yn eithrio'r bobl hynny a gynghorwyd i gael archwiliadau rhagofalus a'r rhai a gafodd gymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig, gan gadw at y cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer llunio dangosyddion perfformiad cenedlaethol.

**Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi** Bu pedair marwolaeth mewn tân damweiniol mewn cartref, un yng Ngogledd Gwynedd (Ebrill 2016), dwy farwolaeth yn yr un tân yng Nghonwy (Awst 2016), ac un mewn tân yn Ne Gwynedd (Ionawr 2017), disgwylir cadarnhad gan y Crwner am bob un ar wahân i'r un yng Ngogledd Gwynedd.

*Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf*




Ers Ebrill 2009 caiff anafusion anangheuol eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:

i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;

ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;

iii) rhoddwyd cymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig;

iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – ystyr hyn yw y bydd unigolyn yn cael ei anfon i'r ysbyty neu'n cael ei gynghori i weld meddyg rhag ofn, ond pryd nad oes unrhyw anaf neu ddioddefaint amlwg.


## Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub yn y tân

- ***Bu i 85.7% o'r bobl mewn tân damweiniol mewn cartref ddianc yn ddianaf a heb gymorth gan y criwiau a aeth at y tân. Mae hyn yn gynnydd o 11.4 pwynt canrannol o gymharu â 2015/16.***

Mae'r 85.7% eleni'n ymwneud â chyfanswm o 643 o bobl a adawodd y safle, roedd 551 ohonynt wedi gallu mynd allan o'r cartref yn ddiogel heb orfod cael eu hachub gan griw tân.

Gyda rhybudd cynnar gan larwm mwg sy'n gweithio, a chynllun dianc wedi ei ymarfer ac wedi ei deilwra i anghenion unigol preswylwyr y cartref, y gall pobl gael y siawns orau i ddianc yn ddianaf o dân mewn cartref heb orfod dibynnu ar gael eu hachub gan griw tân.

Tanau damweiniol mewn cartrefi – *cyfanswm y bobl*




Tabl i ddangos faint o bobl a fu mewn tanau damweiniol mewn cartrefi

| **Statws** | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** | **Cyfartaledd 3 bl.** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaeth | 6 | 3 | 3 | 2 | 3 | 4 | - |
| Anaf - difrifol | 4 | 6 | 3 | 2 | 5 | 8 | 3.3 |
| Anaf - bach | 30 | 39 | 55 | 33 | 42 | 25 | 43.3 |
| Cymorth Cyntaf | 49 | 70 | 77 | 39 | 45 | 43 | 53.7 |
| Archwiliad rhagofalus yn unig | 65 | 49 | 57 | 67 | 54 | 49 | 59.3 |
| Allan heb gymorth y GTA | 589 | 542 | 712 | 591 | 346 | 502 | 549.7 |
| Achub (heb anaf) | 28 | 14 | 10 | 6 | 2 | 6 | 6.0 |
| Allan gyda chymorth y GTA | 66 | 42 | 54 | 29 | 41 | 6 | 41.3 |
| **Yr holl bobl a adawodd safleoedd** | **837** | **765** | **971** | **769** | **538** | **643** | **759.3** |


**Caiff 'Dianaf a heb gymorth criwiau yn y fan a'r lle' ei gyfrifo drwy adio'r categorïau 'Allan heb gymorth y GTA' ac 'Archwiliad rhagofalus yn unig', yna caiff ei fynegi fel canran o gyfanswm y bobl sy'n gadael y safle.*

**<u>Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb Larymau Mwg</u>**

- ***Roedd 15.2% o'r cartrefi a gafodd dân heb larwm mwg (71 o danau), sydd 0.6 pwyntiau canrannol yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol.***

Bu 467 o danau mewn cartref yn ystod y flwyddyn, 39 (9.1%) yn fwy na chyfanswm y flwyddyn flaenorol sef 428 o danau, ac ychydig yn fwy na'r cyfartaledd 3 blynedd sef 461.7 o danau.

*<u>Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (canran)</u>*





* ffigurau cyfartaledd 3 blynedd wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r data rhifiadol gwreiddiol yn hytrach na chanrannau

Mewn 59.7% o'r tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt (279 o danau), roedd **larwm wedi ei osod ac wedi seinio**. Roedd hyn yn ostyngiad bychan o 0.6 pwyntiau canrannol o gymharu â 2015/16.

Mewn 25.1% o'r tanau mewn cartref yr aethpwyd atynt (117 o danau), roedd **larwm wedi ei osod ond heb seinio**. Roedd hyn yn ostyngiad bychan o 0.1 pwyntiau canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond yn gynnydd o 0.7 pwynt canrannol o gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd. Y prif reswm pam nad oedd larymau wedi seinio er eu bod yn yr eiddo oedd y ffaith nad oedd y tân yn ddigon agos i'r larwm i beri iddo seinio, (dyma oedd y rheswm mewn 75 allan o 117 danau).

*<u>Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (nifer)</u>*




**<u>Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref (ADC)</u>**

- ***Cwblhawyd 27% o'r archwiliadau diogelwch yn y cartref yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner.***

Yn ystod y flwyddyn roedd 5,465 (27%) o blith y 20,235 o archwiliadau diogelwch yn y cartref yn rhai a oedd yn deillio o atgyfeiriadau gan sefydliadau partner. Mae hyn wedi disgyn yn is na tharged y Gwasanaeth, sef 30%.

*<u>% yr holl Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhaliwyd wedi deillio o atgyfeiriad gan sefydliad partner</u>*




*ffigurau cyfartaledd 3 blynedd wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r data rhifiadol gwreiddiol yn hytrach na chanrannau

**Atodiad 1**

## ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU:
## Crynodeb o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt

**BLWYDDYN ADRODD 2016-17**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren**= dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol


| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Y flwyddyn gyfan | | Cyfartaledd dros y tair blynedd blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd | 2016/17 | 1,220 | 1,415 | 1,374 | 1,340 | 5,349 | ↑ 9.6% | 5,776 | ↓ 7.4% |
| | 2015/16 | 1,292 | 1,254 | 1,234 | 1,099 | 4,879 | | | |
| Cyfanswm y tanau | 2016/17 | 538 | 514 | 494 | 469 | 2,015 | ↓ 5.8 % | 2,266.7 | ↓ 11.1% |
| | 2015/16 | 673 | 553 | 463 | 451 | 2,140 | | | |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2016/17 | 183 | 245 | 346 | 419 | 1,193 | ↑ 60.3% | 737.3 | ↑ 61.8% |
| | 2015/16 | 136 | 171 | 246 | 191 | 744 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2016/17 | 499 | 656 | 534 | 452 | 2,141 | ↑ 7.3% | 2,771.7 | ↓ 22.8% |
| | 2015/16 | 483 | 530 | 525 | 457 | 1,995 | | | |

**<u>Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt:</u>**

- ***Bu cynnydd o 9.6% neu 470 yn fwy o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.***

Yn ystod y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 5,349 o ddigwyddiadau; mae hyn yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol ond yn is na'r cyfartaledd 3 mlynedd o 5,775.7. Fe wnaeth y digwyddiadau galwadau arbennig gynyddu 60.3% o gymharu â 2015/16 a 61.8% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol. Roedd y digwyddiadau galwadau diangen hefyd wedi cynyddu 7.3% yn fwy o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a gostyngiad o 22.8% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol. Fe wnaeth cyfanswm nifer yr achosion o dân ostwng 5.8% (125 yn llai o danau) o gymharu â 2015/16, a 11.5% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol.

*<u>Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt, yn ôl math</u>*



**Atodiad 1**

**ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU: Y tanau yr aethpwyd atynt**

**BLWYDDYN ADRODD 2016-17**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Y flwyddyn gyfan | | Cyfartaledd dros 3 blynedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tanau | 2016-17 | 538 | 514 | 494 | 469 | 2,015 | ↓ 5.8 % | 2,266.7 | ↓ 11.1% |
| | 2015-16 | 673 | 553 | 463 | 451 | 2,140 | | | |
| Prif Danau | 2016-17 | 255 | 296 | 290 | 244 | 1,085 | ↑ 3.4% | 1,076.3 | → 0.8% |
| | 2015-16 | 277 | 268 | 270 | 234 | 1,049 | | | |
| Tanau eilaidd | 2016-17 | 249 | 211 | 158 | 161 | 779 | ↓ 15.1% | 989.7 | ↓ 21.3% |
| | 2015-16 | 356 | 268 | 153 | 141 | 918 | | | |
| Tanau simnai | 2016-17 | 34 | 7 | 46 | 64 | 151 | ↓ 12.7% | 200.7 | ↓ 24.8% |
| | 2015-16 | 40 | 17 | 40 | 76 | 173 | | | |
| Yr holl danau bwriadol | 2016-17 | 146 | 186 | 134 | 128 | 594 | ↓ 15.5% | 739.7 | ↓ 19.7% |
| | 2015-16 | 238 | 200 | 154 | 111 | 703 | | | |
| Yr holl danau damweiniol | 2016-17 | 392 | 328 | 360 | 341 | 1,421 | ↓ 1.1% | 1,527.0 | ↓ 6.9% |
| | 2015-16 | 435 | 353 | 309 | 340 | 1,437 | | | |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 2016-17 | 34 | 37 | 44 | 29 | 144 | ↓ 10% | 138.0 | ↑ 4.3% |
| | 2015-16 | 49 | 36 | 42 | 33 | 160 | | | |

**<u>Tanau:</u>**

- ***Bu gostyngiad o 5.8% neu 125 yn llai o danau o gymharu â 2015/16.***

Yn ystod y flwyddyn fe aeth y Gwasanaeth at 2,015 o danau. Bu cynnydd o 3.4% mewn prif danau, 15.1% yn llai o danau eilaidd a gostyngiad o 12.7% yn nifer y tanau simnai o gymharu â 2015/16. O gymharu â'r darlun tymor hir a'r cyfartaledd 3 blynedd, mae'r tuedd at i lawr (gwelliant) yn nifer yr achosion o danau y mae'r Gwasanaeth yn cael ei alw atynt yn parhau.


**<u>Tanau: Math</u>**

Bu cynnydd yn nifer y **prif danau,** 3.4% neu 36 yn fwy o ddigwyddiadau o gymharu â 2015/16, ac hefyd ychydig yn uwch, 0.8%, o gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd.

Yn ystod y flwyddyn bu gostyngiad yn nifer y **tanau eilaidd,** 15.1% neu 139 yn llai o ddigwyddiadau o gymharu â 2015/16, a 21.3% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Bu gostyngiad yn nifer y **tanau simnai**, 12.7% neu 22 yn llai o danau o gymharu â 2015/16 a 24.8% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.


*<u>Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl math</u>*



## Tanau: Cymhelliad

Adlewyrchir y gostyngiad cyffredinol mewn tanau yn 2016/17 o gymharu â 2015/16 yn nifer y tanau damweiniol a bwriadol; bu gostyngiad o 1.1% a 15.5% fel ei gilydd. Mae tanau damweiniol a bwriadol yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad*




* Cyfrifwyd y ffigyrau 3 blynedd gan ddefnyddio data rhifyddol yn hytrach na ffigyrau a ddangosir (wedi'u talgrynnu i'r lle degol agosaf)


**Tanau: Safleoedd annomestig:**

***Bu gostyngiad o 10% neu 16 tân yn llai mewn safleoedd annomestig o gymharu â 2015/16.***

Yn ystod 2016/17 fe aeth y Gwasanaeth at 144 o danau o'r fath, 10% yn llai na'r flwyddyn flaenorol (16 yn llai o ddigwyddiadau) ond a oedd 4.3% (6 digwyddiad) yn fwy na'r cyfartaledd 3 blynedd. Mae nifer y safleoedd annomestig yn ardal y Gwasanaeth wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2008/09.

Nid yw tanau mewn adfeilion wedi'u cynnwys yn y mesur hwn.

*Tanau ar Safleoedd Annomestig ac Anafusion oherwydd tanau mewn safleoedd annomestig*



## ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (nid tanau) yr aethpwyd atynt

**BLWYDDYN ADRODD 2016-17**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Y flwyddyn gyfan | | Cyfartaledd dros y 3 blynedd blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2016-17 | 183 | 245 | 346 | 419 | 1193 | ↑ 60.3% | 737.3 | ↑ 61.8% |
| | 2015-16 | 136 | 171 | 246 | 191 | 744 | | | |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 2016-17 | 48 | 59 | 52 | 56 | 215 | → 1.4% | 263.6 | ↓ 18.5% |
| | 2015-16 | 40 | 64 | 56 | 52 | 212 | | | |
| Heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 2016-17 | 135 | 186 | 294 | 363 | 978 | ↑ 83.8% | 473.6 | ↑ 106.5% |
| | 2015-16 | 96 | 107 | 190 | 139 | 532 | | | |

**<u>Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig:</u>**

- ***Bu cynnydd o 60.3% neu 449 yn fwy o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o gymharu â 2015/16.***

Yn ystod 2016/17 aeth y Gwasanaeth at 1,193 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig, sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol ac yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd.


Bu mymryn o gynnydd yn nifer y **gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd** yr aethpwyd atynt o gymharu â 2015/16, ond gostyngiad o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd gan barhau â'r tuedd am i lawr dros y tymor canolig.

Fe wnaeth nifer y digwyddiadau galwadau arbennig **heblaw am wrthdrawiadau ar y ffyrdd** gynyddu, gyda 83% neu 446 yn fwy o ddigwyddiadau o gymharu â 2015/16, a mwy na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Yn ystod 2012/13 er bod y tywydd gwlypach na'r arfer wedi arwain at lai o danau, fe wnaeth y digwyddiadau gwasanaeth arbennig gynyddu, fel gwrthgyferbyniad, oherwydd y tywydd.

Fe wnaeth nifer y llifogydd ym mis Mehefin 2016, effaith y cynllun treialu cyd-ymateb a'r Tîm Cynorthwyo Cymunedol chwyddo nifer y **digwyddiadau gwasanaethau arbennig nad ydynt yn wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd** ar gyfer2016/17.

*<u>Gwasanaethau Arbennig yr aethpwyd atynt, yn ôl math</u>*



**Atodiad 1**

## ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Mynd at alwadau diangen

**BLWYDDYN ADRODD 2016-17**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Y flwyddyn gyfan | | Cyfartaledd dros y 3 blynedd diwethaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2016-17 | 499 | 656 | 534 | 452 | 2,141 | ↑ 7.3% (Coch) | 2,771.7 | ↓ 22.8% (Gwyrdd) |
| | 2015-16 | 483 | 530 | 525 | 457 | 1,995 | | | |
| Galwadau diangen maleisus | 2016-17 | 11 | 10 | 21 | 6 | 48 | ↓ 5.9% (Gwyrdd) | 68.3 | ↓ 29.8% (Gwyrdd) |
| | 2015-16 | 11 | 11 | 12 | 17 | 51 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2016-17 | 214 | 269 | 239 | 219 | 941 | ↓ 3.8% | 1,105.7 | ↓ 14.9% |
| | 2015-16 | 234 | 257 | 269 | 218 | 978 | | | |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo annomestig | 2016-17 | 73 | 117 | 96 | 59 | 345 | ↑ 22.3% (Coch) | 914.3 | ↓ 62.3% (Gwyrdd) |
| | 2015-16 | 58 | 92 | 62 | 70 | 282 | | | |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo arall | 2016-17 | 201 | 260 | 178 | 168 | 807 | ↑ 18.0% (Coch) | 683.3 | ↑ 18.1% (Coch) |
| | 2015-16 | 180 | 170 | 182 | 152 | 684 | | | |

**<u>Galwadau diangen:</u>**

- ***Bu cynnydd o 7.3% neu 146 yn fwy o alwadau diangen aethpwyd atynt o gymharu â'r un cyfnod yn 2015/16.***

Yn ystod 2016/17 aeth y Gwasanaeth allan at 2,141 o alwadau am gymorth a drodd i fod yn alwadau diangen. Mae'r nifer hwn yn gynnydd o 7.3% o gymharu â 2015/16.


Mae nifer gyffredinol y galwadau diangen yn y categorïau canlynol: galwadau ffug maleisus a galwadau diangen wedi gostwng o gymharu â 2015/16.

Mae galwadau diangen gan larymau tân awtomatig ar safleoedd annomestig a safleoedd eraill wedi cynyddu o gymharu â 2015/16, ond o gymharu â'r cyfartaledd dros dair blynedd, mae nifer y larymau tân awtomatig yr aethpwyd atynt ar safleoedd annomestig wedi gostwng.

Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i newid gweithdrefn. Gallai'r gostyngiad hwn fod wedi cyfrannu hefyd at y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau Galwadau Ffug Maleisus oherwydd mae'n bosibl na fyddai Larymau Tân Awtomatig a gafodd eu seinio'n faleisus wedi derbyn presenoldeb y gwasanaeth tân ac achub o ganlyniad i'r weithdrefn newydd.

Ers 1 Ebrill 2015 mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu newid yn y weithdrefn ar gyfer Galwadau Diangen Awtomatig gan ddefnyddio protocolau Presenoldeb Rhagnodedig.

*<u>Galwadau diangen yr aethpwyd atynt, yn ôl math</u>*



## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai. |
| Prif danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb |
| Tanau simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |